BWRDD PARTNERIAETH RHANBARTHOL CAERDYDD A'R FRO
CARDIFF & VALE REGIONAL PARTNERSHIP BOARD

# Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro Adroddiad Blynyddol 2026

## Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro - Adroddiad Blynyddol 2026

BWRDD PARTNERIAETH RHANBARTHOL CAERDYDD A'R FRO
CARDIFF & VALE REGIONAL PARTNERSHIP BOARD

**380 CGLI** Wedi'u cyflogi drwy gyllid RIF

**448** Cyfarfodydd partneriaeth a gynhaliwyd

**775** Cofnodion cleifion a gyrchwyd drwy'r Gwelydd Gofal Cryno

**16,500** Diwrnodau gwely a arbedwyd


**1,587** Pobl a mgysylltwyd â nhw

**100,000+** Pobl a gefnogwyd ar draws gwasanaethau a ariannwyd gan RIF


### Dosbarthiad cyllid yn ôl grŵp poblogaeth




### Gwariant 2025–26




### Cynnydd yn erbyn cyflawniadau 2025–26[3]




### Blaenoriaethau'r dyfodol


- Cytuno ar fersiwn ar gyfer y 1,000 Diwrnod Cyntaf
- Gwella mynediad amserol at wybodaeth ar draws y system
- Gwreiddio System Gofal Cymunedol Integredig

## Rhaglen Gyfalaf BPR Caerdydd a'r Fro

### Crynodeb Cyfalaf 2025–26

| Cyfeirnod y Prosiect | Gwariant 25-26 |
|---|---|
| Amcan HCF 1 | £5,421,709 |
| Amcan HCF | £623,857 |
| Amcan HCF 3 | £1,561,000 |
| IRCF | £526,547 |
| **Cyfanswm** | **£8,133,133** |

### Grwpiau Blaenoriaeth 2025–26




- **24 cynllun**
- **29 o leoedd gwely ychwanegol**
- **17 o leoliadau ychwanegol i PPI ag anghenion cymhleth**
- **17 o leoliadau ychwanegol i gynnal annibyniaeth (AD Oedolion)**
- **2,185+ o ddinasyddion a gefnogwyd i gynnal eu hannibyniaeth gartref neu yn eu cymunedau**

*4 Annual reports TBC

## Cyflwyniad - Sam Austin, Cadeirydd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro



Mae'n bleser gennyf gyflwyno ein Hadroddiad Blynyddol ar gyfer 2025–26, sy'n arddangos yr ystod eang o waith a wnaed gan Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro dros y flwyddyn ddiwethaf.

Wrth i mi ymgymryd â rôl Cadeirydd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, hoffwn ddechrau drwy fynegi fy niolch diffuant i Charles (Jan) Janczewski am y gwaith diflino, yr ymrwymiad a'r gefnogaeth a gafwyd ganddo yn ystod ei gyfnod fel Cadeirydd. Mae Jan wedi chwarae rhan amlwg wrth gryfhau gweithio mewn partneriaeth ar draws Caerdydd a'r Fro a helpu i lunio cyfeiriad gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol integredig ar draws ein rhanbarth.

Hoffwn ddiolch iddo, ar ran y Bwrdd a'n partneriaid, am ei ymroddiad a'i arweinyddiaeth.

Mae ein Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn dwyn ynghyd bartneriaid o amrywiaeth o sefydliadau a grwpiau buddiant. Gyda'n gilydd, rydym yn ceisio cryfhau gofal a chymorth integredig i ddinasyddion ledled ein rhanbarth. Gallwch weld ein haelodaeth a'n strwythur gwaith yma.

Rydym yn gwybod bod pobl ledled Caerdydd a Bro Morgannwg yn parhau i brofi heriau sylweddol yn eu bywydau bob dydd. Fel sefydliadau partner unigol rydym hefyd yn parhau i wynebu heriau ariannol a gweithredol sylweddol iawn. Mae gennym gyfle i wynebu'r heriau hyn drwy gydweithio: cyflawni cynnydd cadarnhaol tuag at ein hymrwymiadau yn y Cynllun Ardal ar y Cyd, cefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau gweithredol a rennir yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg a helpu i lywio blaenoriaethau datblygu'r dyfodol.

.




Mae ein hamserlen yn tynnu sylw at gyflawniadau penodol dros y flwyddyn ddiwethaf - gallwch ddysgu rhagor am ein gwaith drwy glicio ar y meysydd o ddiddordeb isod.

- Gweithgarwch, cynnydd, canlyniadau ac effaith: gweld dangosfyrddau sy'n nodi’r hyn yr ydym wedi'i gyflawni gyda'n gilydd o safbwynt ein hymrwymiadau Cynllun Ardal ar y Cyd a pherfformiad ein holl wasanaethau a ariennir gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

- Integreiddio ac Adnoddau: trosolwg o sut mae ein harian yn cael ei ddefnyddio.

- Anghenion y Boblogaeth: treialu dull newydd o ymdrin â’n Hasesiad o Anghenion y Boblogaeth a ddangosir yn fanylach yma.

- Ymgysylltu a Chydgynhyrchu: rydym yn parhau i ddatblygu ffyrdd gwell o gynnwys pobl a deall eu profiad bywyd i'n helpu i wella gwasanaethau.


- Gwerth Cymdeithasol a'r Trydydd Sector: dangosir ein hymrwymiad i gryfhau llais pob partner er mwyn cyflawni gwerth cymdeithasol gwell drwy gydol yr adroddiad hwn.

- Craffu a Gwella: i baratoi ar gyfer ein hunanasesiad yn 2026-27, mae partneriaid y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wedi ystyried sut rydym yn cryfhau ein ffyrdd o gydweithio ar gyfer y dyfodol.

- Dylanwadu'n genedlaethol fel cynrychiolydd cenedlaethol y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ar y Grŵp Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Gofal Integredig dan arweiniad Ysgrifennydd y Cabinet a'r Grŵp Arweinyddiaeth Cenedlaethol ar gyfer y System Gofal Cymunedol Integredig (ICCS).

# Mawrth 2025

Cyflwyno'r Gwyliwr Gofal Cryno (SCV) yng Ngwasanaeth Adnoddau Cymunedol y Fro, sy'n galluogi staff i gael mynediad at wybodaeth allweddol am iechyd a gofal cymdeithasol drwy un system. Mae adborth cynnar yn dangos effeithlonrwydd gwell a chynllunio gofal mwy diogel, ac mae cynlluniau ar droed i ymestyn yr integreiddio â systemau partner ychwanegol. Darllenwch ragor yma.



# Mai 2025

Cynnal ein cynhadledd flynyddol gyntaf. Roedd 200 o randdeiliaid yn bresennol, a dathlwyd ystod eang o wasanaethau a phobl sy'n helpu i sicrhau fod partneriaeth yn digwydd ar draws ein rhanbarth.






# Mehefin 2025

Y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn cynnal ymchwiliad manwl i Ddiabetes, i ystyried effaith gweithio mewn partneriaeth er mwyn helpu i godi ymwybyddiaeth o fesurau atal a lleihau'r galw yn yr hirdymor. Gallwch gael mynediad i'r adroddiad llawn **yma.**

Daeth partneriaid o bob rhan o'r maes iechyd, gofal cymdeithasol, tai, y trydydd sector a gofal nyrsio a phreswyl ynghyd i ddatblygu blaenoriaethau a chynllun gweithredu i wella'r gwaith o atal cwympiadau. Roedd hyn yn cynnwys cynllun peilot newydd rhwng WAST, BIP Caerdydd a'r Fro a Chyngor Caerdydd.

# Gorfennaf 2025

**Datblygu Arweinyddiaeth Dosturiol.**

Aelodau o'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn cymryd rhan yn y gyntaf o gyfres o weithdai i ystyried sut y gellir symud ymlaen i'r lefel nesaf o aeddfedrwydd ac effaith. Yr Athro Michael West oedd yr hwylusydd ar y diwrnod a chanolbwyntiodd yn benodol ar arweinyddiaeth dosturiol fel ffordd bwerus o wella gwasanaethau.




**Ailfeddwl ynghylch y Daith Niwroamrywiaeth - Gweithdai Meddwl yn Wahanol**

Partneriaid yn dod ynghyd i barhau â sgwrs a gychwynnwyd yn ein cynhadledd flynyddol: sut olwg ddylai fod ar y llwybr gofal a chymorth delfrydol i bobl sy'n byw gyda niwroamrywiaeth.

**Sesiwn 1: Rhannu Profiad Bywyd ac archwilio'r Llwybr Niwroamrywiaeth Cyfredol**
**Sesiwn 2: Creu Gweledigaeth a Rennir ar gyfer y "Llwybr Niwroamrywiaeth Delfrydol"**



# Awst 2025

Dathlu Pen-blwydd Agor Drysau i Ymarfer yr Ymennydd — mae'r rhaglen hon dan arweiniad y gymuned yn cefnogi iechyd yr ymennydd, llesiant a chysylltiad cymdeithasol ledled Caerdydd a'r Fro. Dathlwyd ein hail ben-blwydd yng Nghanolfan India. Daeth dros 100 o bobl ynghyd yno a chafwyd yno berfformiadau, stondinau partneriaid, a straeon o brofiadau bywyd i dynnu sylw at ddiwylliant a chynhwysiant. Roedd Sarah Murphy AS yn bresennol yno.



Ers ei lansiad, mae mwy na 30 o ddigwyddiadau yn cynnwys dros 2,000 o bobl wedi cael eu cynnal gan lunio arferion cynhwysol a llywio ymdrechion cymorth dementia yn y dyfodol.


**Tai â Gofal**

Grant Cyfalaf Trydydd Sector yn Mynd yn Fyw - mae'r gronfa hon yn cynnig hyd at £10,000 o gyllid i nifer o grwpiau cymunedol bach i gefnogi pobl i gynnal eu hannibyniaeth drwy ymyrraeth gynnar ac atal. Gallwch gael mynediad at yr ystod lawn o gymorth a ddarperir gan y Rhaglen Gyfalaf yma.



BWRDD PARTNERIAETH RHANBARTHOL CAERDYDD A'R FRO
CARDIFF & VALE REGIONAL PARTNERSHIP BOARD

**Lansio dull newydd o ddatblygu ein Hasesiad o Anghenion y Boblogaeth:**




Lansio dull cylchol newydd ble rydym yn edrych yn fanwl ar anghenion grwpiau poblogaeth penodol. Rydym yn dechrau gyda **Babanod, Plant a Phobl Ifanc** a hefyd pobl sydd â phrofiad bywyd o **Anableddau Dysgu.** Mae partneru ag amrywiaeth o ddarparwyr trydydd sector yn golygu bod pobl sydd â phrofiad bywyd yn cael eu galluogi i gyfrannu at y gwaith.

# Medi 2025



Ymweld â chymuned Gujarati 'Samaj' i rannu gwaith dementia ac iechyd meddwl drwy'r rhaglen Agor Drysau i Iechyd yr Ymennydd

# Hydref 2025

### Bwrdd Rhaglen Anableddau Dysgu

Fel rhan o'n gwaith i wella nifer y bobl ag anableddau dysgu sy'n cael archwiliadau iechyd blynyddol, a darpariaeth yr archwiliadau hyn, rydym yn cefnogi ailddatblygu gwefan "Gofalwch am eich Iechyd" Gogledd Cymru er mwyn iddi fod ar gael i Gymru gyfan, a datblygu ymgyrch hyrwyddo i godi ymwybyddiaeth.

# Tachwedd 2025


Sefydlu Bwrdd Partneriaeth **Dechrau'n Dda** diwygiedig i ganolbwyntio ar 3 blaenoriaeth allweddol:

1. Y 1000 Diwrnod Cyntaf/Y Blynyddoedd Cynnar
2. Goruchwyliaeth Strategol o Brosiectau a Chyllid Y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol
3. Lleihau ein dibyniaeth ar ofal cost uchel a brynir yn allanol drwy ddatblygu atebion a darparu adnoddau yn fwy effeithiol fel partneriaeth amlasiantaeth




### Bwrdd Comisiynu Rhanbarthol

Aelodau'r Bwrdd Comisiynu Rhanbarthol yn gwahodd y trydydd sector i ymuno â'r Bwrdd a chytunwyd ar Gronfa Gwerth Cymdeithasol i dynnu sylw at yr effaith y mae'r trydydd sector yn ei chael o fewn ein partneriaeth. Mae ein 3 Fforwm Adran 16 yn cyfarfod drwy gydol y flwyddyn i ddatblygu eu gwaith gyda phartneriaid trydydd sector.



# Rhagfyr 2025

### Cynrychiolwyr Gofalwyr Di-dâl

Y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn croesawu dau Gynrychiolydd Gofalwyr Di-dâl newydd sy'n cryfhau llais gofalwyr mewn prosesau gwneud penderfyniadau rhanbarthol. Eu rôl yw dod â phrofiad bywyd i drafodaethau, a sicrhau y rhoddir sylw i anghenion a safbwyntiau gofalwyr di-dâl.

Gweithiwr Cymorth Gofalwyr Di-dâl wedi'i sefydlu yn Ysbyty Athrofaol Llandochau - Nod y rôl yw cefnogi gofalwyr di-dâl, yn enwedig yn ystod y cyfnodau pan gaiff cleifion eu rhyddhau o'r ysbyty, er mwyn gwella eu profiadau. Darllenwch ragor yma

### Sbrint Cynllunio ar gyfer y Gaeaf




Rhoi cychwyn ar gefnogaeth cynllunio a hwyluso ar gyfer ystod o Sbrintiau Cynllunio ar gyfer y Gaeaf a fyddai'n digwydd drwy gydol tymor y Gaeaf. Yma, byddwn yn cynllunio ac yn cydlynu gweithgareddau'r bartneriaeth i sicrhau bod ein system wedi'i pharatoi ar gyfer cyfnod y Gaeaf.

# Ionawr 2026



### Lansio Cynllun Peilot Ymateb Cyflym i Gwympiadau

Gwasanaeth newydd ar gyfer cwympiadau yn cael ei dreialu gyda mewnbwn gan WAST, CAV24/7 a Chyngor Caerdydd i gefnogi ymateb cyflym i leihau'r achosion o orwedd am gyfnod hir ac arosiadau am ambiwlansys ledled Caerdydd.

### Diogel@Gartref

Mae'r gwasanaeth Diogel@Gartref yn parhau i roi cefnogaeth lwyddiannus i bobl aros gartref wrth dderbyn cymorth cofleidiol. Mae'r gwasanaeth wedi cefnogi 645 o bobl newydd yn 2025-26 ac wedi arbed yr hyn sy'n cyfateb i 7,809 o ddyddiau gwely sy'n amlygu'r profiad gwell a gaiff person sy'n aros gartref ac sy'n annibynnol.

### Archwiliad Dwfn Y 1000 Diwrnod Cyntaf – wedi'i fabwysiadu fel blaenoriaeth 'Seren y Gogledd' ranbarthol



Daeth y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol â phartneriaid ynghyd o bob rhan o Gaerdydd a'r Fro i gynnal archwiliad dwfn i'r 1000 Diwrnod Cyntaf, gan rannu data, profiadau bywyd a dysgu o fodel Dechrau Gwell Blackpool.

### Dechrau'n Dda




Rydym yn hwyluso'r gwaith o gwblhau offeryn hunanasesu NYTH/Nest i lywio dull system gyfan mewn perthynas â gwasanaethau iechyd meddwl a llesiant ar gyfer babanod, plant a phobl ifanc. Mae'r offeryn wedi'i gynllunio i greu dull cydlynol, system gyfan i gefnogi gweithio mewn partneriaeth, cyd-gynhyrchu, a dull 'dim drws anghywir'.

## Chwefror 2026

Cynnal Gweithdy Cartrefi Clyd gyda 100 o bobl i gyflwyno menter i Gymru ar arferion gorau a fydd yn targedu cynyddu incwm a chymorth i addasu er mwyn sicrhau y gallwn gadw pobl yn gynnes yn eu cartrefi.





### Prosiectau Cyfalaf

Mae'r Hwb Integredig arfaethedig ar gyfer oedolion ag anghenion cymhleth yn Stryd Thompson, Y Barri wedi cael cymeradwyaeth Weinidogol ac mae'r gwaith caffael a chynllunio ar y cyd yn mynd rhagddo. Achos Busnes Llawn ar gyfer Hwb Iechyd a Llesiant Integredig Ely Parkview wedi'i gymeradwyo ac wedi'i gyflwyno i'r Gronfa Integreiddio ac Ailgydbwyso Gofal i gael cymeradwyaeth Weinidogol.



Mae'r gwaith rhwng Cyngor Caerdydd a BIP Caerdydd a'r Fro i ddatblygu Cynllun Byw Cymunedol newydd yn Llaneirwg yn mynd rhagddo. Bydd yn darparu gofal ar y safle a chyfleusterau nyrsio cymunedol i gefnogi gofal mwy integredig. Disgwylir iddo gael ei gwblhau yn 2026–27: Cynllun Byw Cymunedol Llaneirwg.

## Mawrth 2026

### Uwchgynhadledd ICCS



Partneriaid o bob rhan o'r maes iechyd, o awdurdodau lleol a'r Trydydd Sector, yn dod ynghyd i lunio dyfodol gofal cymunedol integredig yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg. Gyda'i gilydd, maent yn archwilio sut y gall partneriaethau cryfach, gwaith ataliol a chefnogaeth gymunedol greu system fwy cydgysylltiedig sy'n gweithio'n well i bobl a chymunedau. Hefyd, mae BIP Caerdydd a'r Fro yn ymrwymo i ICCS drwy ei Gynllun Gwasanaethau Clinigol 10 mlynedd.

### Gweithdy Shine Together

Rydym yn cynnal gweithdy gyda phobl ag anableddau dysgu, eu teuluoedd a'u cefnogwyr i gyd-ddylunio'r rhwydwaith.

Ein nodau:

- Adeiladu rhwydwaith fel y gall pobl rannu syniadau, profiadau, a'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw.
- Gofyn, gwrando a gweithredu ar yr hyn y mae pobl yn ei ddweud.
- Helpu pobl i ddod o hyd i wybodaeth am wasanaethau a chyfleoedd yn eu hardal.

SHINE TOGETHER

### Wythnos Dathlu Niwroamrywiaeth




Rydym yn partneru â rhwydwaith Caerdydd sy'n Deall Niwrowahaniaeth i gynnal sesiynau ymgysylltu â'r cyhoedd ar gyfer gwylio'r weminar "Niwrogynhwysiant - Mae o Bwys!" yn genedlaethol.

BWRDD PARTNERIAETH RHANBARTHOL CAERDYDD A'R FRO
CARDIFF & VALE REGIONAL PARTNERSHIP BOARD

# Edrych Ymlaen

Wrth i ni symud i bedwaredd flwyddyn ein Cynllun Ardal ar y Cyd 2023-2028, rydym yn parhau i fod wedi ymrwymo i wella gwasanaethau iechyd a gofal ar draws y rhanbarth.
Bydd ein Meysydd Ffocws ar gyfer 2026-27 yn cynnwys:

### Dechrau'n Dda

Mae canolbwyntio ar 'wneud pethau'n iawn' i fabanod, plant a phobl ifanc yn ein rhanbarth o bwys strategol mawr. O gyfnod hollbwysig y 1000 Diwrnod Cyntaf a'r blynyddoedd cynnar, trwy blentyndod, i gefnogi pobl ifanc i bontio'n dda i fyd oedolion, mae'r cyfnod hwn yn gyfle i drawsnewid cyfleoedd bywyd, lleihau anghydraddoldebau a gwella effaith hirdymor cenedlaethau'r dyfodol ein poblogaeth.

Mae ein Partneriaeth Dechrau'n Dda wedi cytuno ar set o flaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn hon:
- Uchelgais a rennir i wella'r 1000 Diwrnod Cyntaf
- Iechyd meddwl emosiynol a llesiant drwy raglen emPOWER, a fframwaith NYTH/NEST yn sail i hyn.
- Cyflawni diwygiadau ADY a sicrhau llywodraethiant a chysondeb rhanbarthol cadarn
- Lleoliadau ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth iawn

### Byw'n Dda

- Cyflwyno cynllun diwygiedig ar gyfer cyllid Seibiannau Byr i gefnogi Gofalwyr Di-dâl, a chryfhau ein gwaith i nodi a darparu cefnogaeth mewn ymateb i'r Strategaeth Genedlaethol newydd ar gyfer Gofalwyr Di-dâl.
- Cytuno ar gynllun a rennir mewn ymateb i'r Asesiad o Anghenion y Boblogaeth ar gyfer Anableddau Dysgu.
- Niwrowahaniaeth: Parhau i gydweithio i wella ein cyd-ddealltwriaeth o'r sefyllfa bresennol o ran yr angen a'r ddarpariaeth gwasanaethau.
- Iechyd meddwl: Adeiladu ar y gwaith parhaus i gyflawni canlyniadau ar gyfer y rhai sy'n byw gyda chyflyrau iechyd meddwl.
- VAWDASV: parhau i roi ein cynlluniau y cytunwyd arnynt ar waith.
- Cartrefi Clyd: cynllun peilot newydd i sicrhau bod gan bobl â salwch cronig fynediad at gartrefi clyd a'u bod yn cael eu cyfeirio at ffrydiau incwm priodol eraill i wella eu heiddo.

### Heneiddio'n Dda

Mae hwn yn faes datblygu uchelgeisiol i Gaerdydd a'r Fro yn 2026-27 wrth i'r rhanbarth ystyried datblygu ei fodel o System Gofal Cymunedol Integredig gan roi ffocws penodol ar y canlynol:

- Rhoi Timau Cymdogaeth Integredig ar waith mewn cymunedau i gefnogi gwaith ataliol, cyflyrau hirdymor a phobl sydd mewn mwy o berygl o fod angen gofal a chymorth;
- Datblygu dull rhanbarthol o Gynllunio Gofal yn y Dyfodol, a gweithredu ffordd newydd o weithio i gefnogi pobl i ystyried eu hanghenion a'u dymuniadau o ran gofal yn y dyfodol.
- Dementia: Parhau i adeiladu ar y rhaglen waith bresennol sy'n cynnwys ymgysylltiad cymunedol cryf drwy Agor Drysau a Rhwydwaith Hyrwyddwyr Dementia;
- Datblygu'r rhaglen waith yn unol â'r Strategaeth Genedlaethol newydd ar gyfer Dementia.

### Hwyluswyr:

- Cynnal Asesiad o Sefydlogrwydd y Farchnad i lywio'r ddarpariaeth gofal yn y dyfodol;
- Parhau i gyflwyno ein Hasesiad o Anghenion y Boblogaeth cylchol;
- Rhannu Gwybodaeth Effeithiol: Sicrhau cyfathrebu di-dor rhwng gwasanaethau er mwyn darparu gofal wedi'i gydlynu.
- Arloesi Digidol: defnyddio technoleg i wella darpariaeth gwasanaethau ac ymgysylltiad â chleifion. Bydd cyflwyno'r Gwyliwr Gofal Cryno yn parhau ar draws rhanbarth y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, a bydd yn galluogi asiantaethau i rannu gwybodaeth ar gyfer gofal mwy diogel a fydd wedi'i gydlynu'n well.
- Datblygu'r gweithlu: Parhau i ddatblygu ein Cynllun Cyfalaf Rhanbarthol;
- Cynnal hunanasesiad i fesur cadernid ac effeithiolrwydd ein gwaith gyda'n gilydd ar ôl cwblhau ein gweithdai datblygu. Bydd hyn yn cynnwys sicrhau cydymffurfedd wrth glywed 'llais y gweithlu' yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru.
- Ymgymryd â'r paratoadau sy'n ofynnol pan fydd arian o'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol yn dod i ben ym mis Mawrth 2027.

**Appendix 1: RPB Meeting Attendance**

**A – Apologies**
**P – Present**

## SLG Attendance Table (March 2025 – April 2026)

| Name | 9 May 25 | 24 Jun 25 | 29 Jul 25 | 2 Sep 25 | 7 Oct 25 | 11 Nov 25 | 27 Jan 26 | 3 Mar 26 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Christine Boston | | | | | | | | P |
| Sheila Hendrickson-Brown | P | P | P | A | P | P | P | P |
| Sarah McGill (Chair) | P | P | P | P | A | P | P | P |
| Meredith Gardiner | P | P | A | P | P | P | P | P |
| Jason Bennett | P | P | P | A | P | P | P | P |
| Cath Doman | A | P | P | P | P | P | P | P |
| Chris Markall | P | P | A | P | P | P | P | P |
| Lance Carver | P | A | P | P | P | P | A | A |
| Rachel Connor | P | P | P | A | A | P | A | P |
| Claire Beynon | P | A | P | P | P | A | A | A |
| Mike Ingram | A | A | A | P | A | P | P | A |
| Mike Ingram | A | A | A | P | A | P | P | A |
| Emma Cooke | P | A | A | A | P | A | P | A |
| Carolyne Palmer | A | A | P | A | P | P | A | A |
| Jane Thomas | A | A | P | P | A | A | A | A |
| Diane Walker | A | P | A | A | A | A | A | A |
| Rachel Lee | A | A | A | A | A | A | A | A |
| Paul Bostock | A | A | A | A | A | A | A | A |
| Catherine Wood | A | A | A | A | A | A | A | A |

## RPB Attendance Table (June 2025 – March 2026)

| Name | 10 Jun 25 | 2 Jul 25 | 9 Sep 25 | 4 Nov 25 | 13 Jan 26 | 4 Mar 26 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cllr Eddie Williams | P | P | P | P | P | P |
| Cllr Ash Lister (Chair) | P | P | P | P | P | P |
| Claire Beynon | P | P | P | P | P | P |
| Sarah Scire | P | P | P | P | P | P |
| Sam Austin | P | P | P | P | P | P |
| Cath Doman | P | P | P | P | P | P |
| Joshua Dowdall | | | | | P | P |
| Christine Boston | | | | | | P |
| Mike O'Brien | P | P | P | | | |
| Elizabeth Jones | P | A | P | P | P | P |
| Sheila Hendrickson-Brown | P | A | P | P | P | P |
| Estelle Hitchon | P | A | A | P | P | P |
| Cllr Leonora Thomson | P | A | A | P | P | P |
| Chris Markall | P | A | P | A | P | P |
| Suzanne Rankin | P | A | P | A | P | P |
| Sarah McGill | P | A | A | P | P | P |
| Prof. Ceri Phillips | P | A | P | A | P | P |
| Lance Carver | P | P | P | A | A | A |
| Emma Cooke | P | A | A | A | P | P |
| Kirsty Williams | | | | | P | A |
| Natalie Drury-Styles | | | | | P | A |
| Sandra Veasey | | | | | P | A |
| Lauranne Cullen | P | P | A | A | A | A |
| Charles Janczewski | A | P | A | | | |
| Rachel Connor | A | A | A | A | P | P |
| Helen White | A | P | A | A | | |
| Cllr Lynda Thorne | A | A | P | A | A | A |
| Casey French | A | A | P | A | A | A |
| Cllr Sandra Perkes | A | A | A | A | P | A |
| Cllr Lee Bridgeman | A | A | A | A | A | A |
| Cllr Margaret Wilkinson | A | A | A | A | A | |
| Lisa Trigg | A | A | A | A | A | A |
| Melanie Godfrey | A | A | A | A | A | |
| Helen Williams | | | | | | A |

### Appendix 2: Forward Plan of Future Meetings

| Meeting Type | Date |
|---|---|
| SLG | 28 April 2026 |
| SLG | 19 May 2026 |
| RPB | 9 June 2026 |
| Annual Conference | 19 June 2026 |
| SLG | 23 June 2026 |
| RPB | 7 July 2026 |
| SLG | 28 July 2026 |
| SLG | 1 September 2026 |
| RPB | 8 September 2026 |
| RPB | 3 November 2026 |

**Appendix 3: Compliance of Annual Report with Statutory Requirements**

| Section | Requirement / Checkpoint |
|---|---|
| A. Statutory Requirements | ✓Report prepared annually in line with Partnership Arrangements (Wales) Regulations |
| | ✓Submitted to Welsh Ministers by 30 June |
| | ✓Published online and publicly accessible |
| | ✓Produced bilingually (Welsh & English) |
| | ✓Alternative formats available on request (Easy Read, Braille etc.) |
| B. Purpose, Governance and Membership | ✓Clear statement of RPB purpose and statutory role |
| | ✓Summary of objectives and priorities for the reporting year |
| | ✓Membership list including statutory, third sector, citizen and provider members |
| | ✓Description of governance structure and sub-groups |
| | ✓Named accountable individuals (DSS and LHB executive) |
| | ✓Record of attendance included as appendix |
| C. Activity and Progress | ✓Summary of key activity undertaken |
| | ✓Progress against agreed priorities and milestones |
| | ✓Delivery against revised Part 9 Guidance |
| | ✓Narrative supported by financial rationale |
| | ✓Evidence of National Framework for Commissioning C&S implementation |
| D. Integration & Resources | ✓Evidence of supporting integration and service delivery |
| | ✓Explanation of use of Regional Integration Fund |
| | ✓Actions supporting system resilience |
| | ✓Description of partnership mechanisms (S33, pooled funds) |
| E. Population Needs | ✓Response to Population Needs Assessment |
| | ✓Activities address priority needs for integration |
| | ✓Clear link between need, action and outcomes |
| F. Engagement & Co-production | ✓Engagement with citizens, service users and carers |
| | ✓Engagement with third and independent sector |
| | ✓Evidence of embedded co-production |
| | ✓Distinct commentary from members |
| G. Outcomes & Impact | ✓ Evidence of improved outcomes |
| | ✓Use of qualitative and quantitative measures |
| | ✓Alignment with Health & Social Care Outcomes Framework |
| H. Scrutiny & Improvement | ✓Summary of self-assessment findings |
| | ✓Identified strengths and improvements |
| | ✓Improvement actions identified |
| I. Social Value & Third Sector | ✓Description of social value forum activity |
| | ✓Evidence of social value shaping priorities |
| | ✓Ongoing third sector engagement confirmed |
| J. Forward Look | ✓Clear links to next Annual Delivery Plan |
| | ✓Confirmation of reporting progress next year |
| | ✓No duplication with LA, LHB or PSB reports |

**Appendix 4: Budget**
**Our Regional Partnership Board had responsibility for the following Welsh Government funding streams in 2025-26:**

| RBP 25/26 Partner Expenditure (£000s) | | | |
|---|---|---|---|
| Programme | Workstream | Allocation | Total |
| Regional Integration Fund | RPB Infrastructure | 750 | 745 |
| | At Home | 9,264 | 9,391 |
| | emPower | 4,125 | 4,040 |
| | Complex Health and Learning Disability | 820 | 805 |
| | Learning Disabilities | 1,774 | 1,783 |
| | Unpaid Carers | 479 | 464 |
| | ICF Autism | 398 | 398 |
| | RIF Dementia | 1,600 | 1,600 |
| | Social Value | 45 | 25 |
| | Digital | 35 | 35 |
| Regional Integration Fund Total | | 19,291 | 19,285 |
| Short Breaks | Short Breaks | 172 | 172 |
| Innovation Working at Scale | Innovation Working at Scale | 203 | 203 |
| IRCF | IRCF Revenue | 450 | 450 |
| RPB Managed Programme Total | | 825 | 825 |
| RPB Managed Programmes Grand Total | | 20,116 | 20,116 |

| Capital Funding | Spend (£) |
|---|---|
| HCF Objective 1 | 5,421,706 |
| HCF Objective 2 | 623'857 |
| HCF Objective 3 | 1,561,000 |
| IRCF | 526,547 |
| Total | 8,133,133 |